

IAQF Cymru: Dod yn Gorff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru

Ail Argraffiad, Gorffennaf 2018

CYDNABYDDIAETHAU

Mae'r ddogfen hon wedi ei diweddarau gan MBARC yn dilyn cyfres o seminarau ymgysylltu gyda darparwyr gwybodaeth a chyngor Perchnogion Safonau yn ystod Gwanwyn 2018. Mae wedi ei seilio ar ddogfen wreiddiol a gynhyrchwyd gan MBARC ar gyfer Llywodraeth Cymru a gynhyrchwyd yn dilyn ymgynghori ar raddfa fawr gyda'r sector gwybodaeth a chyngor yng Nghymru a rhanddeiliaid cysylltiedig.

Cefnogwyd datblygiad y ddogfen wreiddiol gan banel arbenigol yn gweithredu fel Grŵp Llywio'r prosiect. Hoffai MBARC gydnabod cyfraniad y Grŵp Llywio, a oedd yn cynnwys:

- Bob Chapman (Cadeirydd y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol)
- Linda Copley (Cyngor ar Bopeth)
- Heather Giles (Llywodraeth Cymru)
- Christopher Gittins (Llywodraeth Cymru)
- Dave Harrison (Canolfan Asesu)
- Erika Helps (Llywodraeth Cymru)
- Tiana Pathmanathan (Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol)
- Lindsey Poole (Cyngrhair Gwasanaethau Cyngori)
- Hazel Thoms (Bwrdd Cymorth Cyfreithiol yr Alban)
- Sharon West (Llywodraeth Cymru)
- Steve Williams (SSIA)
- Katie Wilson (Llywodraeth Cymru)
- Mathew Xerri (Llywodraeth Cymru)

Hoffai MBARC gydnabod cyfraniad yr unigolion a'r sefydliadau hyn i ddatblygiad yr Adroddiad Cyfarwyddyd ac Arferion Da hwn.

MBARC

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Paul Neave

Adran: Yr Uned Gynhwysiant Ariannol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Paul.Neave@gov.wales



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir fel arall.
<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2018

© Hawlfraint y Goron 2018

Dod yn Gorff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru

Cynnwys

Acknowledgements.....	2
Introduction.....	4
Overview.....	4
A Dynamic Framework.....	4
The Accreditation Model.....	5
Overview.....	5
The Assurance Process.....	6
The Assurance Timescale.....	7
Self Assessment.....	7
External Assessment.....	8
Interim Validation.....	10
Suspension or Removal of Accreditation.....	11
Appeals & Complaints.....	11
Compliance & Improvement.....	11
The Requirements on Standard Owners.....	12
Overview.....	12
Continued Compliance with the IAQF Wales.....	12
Strategic Contribution to IAQF Wales Development in Wales.....	12
Assurance Reporting.....	13
Operational Support to the IAQF Wales.....	13
The Application Process.....	13
Application for IAQF Wales Approved Accrediting Body Status.....	14
1 Contact and Scheme Details.....	14
2 Core Requirements.....	15
3 Commitments as an IAQF Wales Approved Accrediting Body.....	17
Quality Area Compliance.....	19

CYFLWYNIAD

Trosolwg

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i ddarparu cyfarwyddyd ar ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer Pherchnogion Safonau sy'n ceisio dod yn Gorff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru. Mae wedi'i seilio ar ymgynghori eang, â rhanddeiliaid ledled Cymru ar yr un pryd â thrafodaethau â Pherchnogion Safonau eu hunain.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun hyblyg ar gyfer Pherchnogion Safonau sy'n caniatáu iddynt ymgorffori pob un o'r saith maes ansawdd IAQF Cymru o fewn eu cynllun cyfredol neu geisio achrediad ar gyfer meysydd unigol o fewn eu cynllun. Yn yr un modd, rydym wedi gosod gofynion lleiaf ar gyfer y broses asesu mae'n rhaid i'r holl Berchnogion Safonau gydymffurfio â hwy i sicrhau achrediad ond nad ydynt yn galw ar Berchnogion Safonau i ymgymryd ag archwiliadau o ansawdd cyngor a adolygir gan gymheiriaid; gall aelodau eu cynlluniau sicrhau'r elfen hon o IAQF Cymru gan gyrrff achredu cymeradwy IAQF Cymru eraill lle na ddarperir hyn gan eu Perchennog Safonau cyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i weithio gyda Pherchnogion Safonau er mwyn eu cefnogi wrth iddynt geisio am statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru.

Fframwaith Dynamig

Cynllunir IAQF Cymru i ddarparu Fframwaith dynamig a fydd yn amodol ar adolygiadau a gwelliannau cyfnodol. Oherwydd hyn rydym yn gosod gofyniad ychwanegol ar Berchnogion Safonau a achrededir o dan IAQF Cymru i adrodd am heriau cyffredin a wynebir gan eu gwasanaethau achrededig ag enghreifftiau o arferion da neu ragorol. Gweler Gofyniad ar Berchnogion Safonau isod.

Fel cynllun newydd, mae Llywodraeth Cymru'n croesawu sylwadau gan Berchnogion Safonau ar sut mae'r cynllun hwn yn gweithredu a ffyrdd y gellir ei wella. Dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen hon i FinancialInclusion@wales.gsi.gov.uk.

Y MODEL ACHREDU

Trosolwg

Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar IAQF Cymru a chaiff cynnwys IAQF Cymru a'r prosesau sicrwydd cysylltiedig fel ei gilydd eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru'n gyfnodol.

Nid yn unig mae'r ymagwedd at sicrwydd ansawdd yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod yr holl ddarparwyr gwybodaeth a/neu gyngor yn bodloni safonau gofynnol mewn perthynas â diogelwch, ymatebolrwydd ac effeithiolrwydd, mae hefyd yn ceisio gwreiddio diwylliant o welliant parhaus ymhlith darparwyr unigol ac ar draws yr holl sector.

Mae IAQF Cymru'n adeiladu ar yr amrywiaeth o gynlluniau sicrwydd ansawdd presennol a ddefnyddir gan rai darparwyr gwybodaeth a/neu gyngor yng Nghymru. Nid yw'n sefydlu set newydd o safonau ond mae'n mynnu bod safonau presennol yn trafod ac yn diwallu'r meini prawf ansawdd o fewn pob maes ansawdd. Yn yr un modd, nid yw IAQF Cymru'n sefydlu proses sicrwydd wahanol ar gyfer darparwyr unigol ond mae'n gweithio gyda phrosesau sicrwydd presennol yr ymgwymerir â hwy gan Berchnogion Safonau lle mae'r rhain yn cydymffurfio â gofynion IAQF Cymru.

Rhagwelir y bydd Perchnogion Safonau sy'n darparu gwasanaethau sicrwydd ansawdd i ddarparwyr unigol gwybodaeth a/neu gyngor yng Nghymru'n addasu cynnwys eu safonau a'u prosesau sicrwydd fel ei gilydd er mwyn cydymffurfio â gofynion IAQF Cymru. Mae'r cyfle i ddatblygu safonau a phrosesau ansawdd sy'n cydymffurfio ag IAQF Cymru ac i geisio statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru'n agored i unrhyw sefydliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno proses hyblyg ar gyfer Perchnogion Safonau er mwyn iddynt sicrhau achrediad yn ôl IAQF Cymru ar gyfer pob un neu rai o'r saith Maes Ansawdd ac ar gyfer y cyfan neu ran o'r broses sicrhau. Lle achrededir asiantaeth unigol gan Berchennog Safon sydd wedi'i achredu ar gyfer rhai o'r meysydd ansawdd yn unig a/neu ran o'r broses yn unig, bydd angen i'r asiantaeth honno geisio Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru arall er mwyn darparu sicrwydd yn y meysydd hynny na ddelir gan eu Berchennog Safon.


Hefyd mae IAQF Cymru'n ceisio gweithio â fframweithiau eraill, megis Fframwaith Ansawdd Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol a gofynion rheoleiddiol eraill er mwyn lleihau'r baich ar ddarparwyr gwybodaeth a/neu gyngor. Yn arbennig, dylai Cyrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru nodi, os yw'r gwasanaeth sy'n cael ei achredu'n rhan o awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cynghori a chymorth (IAA) fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, bydd dyletswyddau a gofynion penodol o dan y Ddeddf, Rheoliadau, codau ymarfer a chyfarwyddyd yn perthyn i agweddau a gynhwysir yn y fframwaith hwn. Mae enghreifftiau'n cynnwys asesiadau o anghenion (meini prawf ansawdd 2.2), diogelu (3.6), y fframwaith ymwybyddiaeth (gan gynnwys hyfforddiant ynghylch diogelu, 5.1) a gofynion achos ar gyfer IAA (4.3). Os bydd y gofynion cyfreithiol ynghylch gwasanaethau IAA yn wahanol i ofynion IAQF Cymru bydd y gofynion cyfreithiol yn cymryd blaenoriaeth.

Y Broses Sicrwydd

Mae IAQF Cymru nid yn unig yn ceisio sicrhau bod yr holl ddarparwyr gwybodaeth a/neu gyngor yn cyflawni safonau gofynnol mewn cysylltiad â diogelwch, ymatebolrwydd ac effeithiolrwydd, ond hefyd yn ceisio ymgorffori diwylliant o welliant parhaus o fewn darparwyr unigol ac ar draws yr holl sector. Er mwyn sefydlu'r diwylliant hwn mae IAQF Cymru'n cynnwys pum cam allweddol:

1. **Hunanasesu** gan y darparwr gwybodaeth a/neu gyngor yn unol â'r set o safonau IAQF Cymru a ffefrir ganddynt
2. **Archwiliad bwrdd gwaith** o hunanasesiad gan eu Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru
3. **Arolygiad ar y safle** o'r gwasanaeth gan eu Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid o ansawdd yr wybodaeth neu gyngor a ddarperir gan y gwasanaeth
4. Adroddiad **archwilio neu asesu manwl** wedi'i gwblhau gan y Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru. Dylid cyflenwi hwn i Lywodraeth Cymru os yw IAQF Cymru wedi'i sicrhau neu beidio
5. Y darparwr gwybodaeth a/neu gyngor sydd wedi'i archwilio yn datblygu **cynllun gwella** i drafod meysydd ble ceir gwendidau neu i drawsnewid meysydd i sicrhau arferion da neu ragorol.
6. **Dilysu Dros Dro'n** gan gynnwys hunanasesiad gan y gwasanaeth achrededig ac asesiad o newidiadau pwysig gan y Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru gan nodi camau adfer ac ymgymryd â hwy lle bo'n briodol. Dylai'r Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru ddarparu gwybodaeth gryno ar yr adeg hon i Lywodraeth Cymru.

Mae'r cylch gwella isod yn arddangos ymagwedd IAQF Cymru at wahanol gamau sicrwydd.



Gofynion Prosesau Craidd a Datblygiadol

I adlewyrchu natur ddeinamig IAQF Cymru ac i adlewyrchu sylwadau gan Berchnogion Safonau a oedd yn ymwneud â digwyddiadau yng Ngwanwyn 2018, cyflwynir gofynion Perchnogion Safonau mewn perthynas â'u cynllun dan ddau bennawd allweddol:

- **Gofynion Prosesau Craidd** – Rhaid i'r prosesau hyn fod yn eu lle er mwyn sicrhau Statws Corff Achrededig Cymeradwy i'r IAQF .
- **Gofynion Prosesau Datblygiadol** – Dyma brosesau nad ydynt o reidrwydd yn eu lle cyn sicrhau Statws Corff Achrededig Cymeradwy i'r IAQF ond disgwylir iddynt gael eu datblygu dros gyfnod rhesymol o amser er mwyn eu cytuno rhwng y Perchennog Safonau a Gwasanaeth Asesu Annibynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer IAQF.

Yn ogystal, nodir un gofyniad proses mewn perthynas ag **adolygiad allanol gymheiriaid** fel “**Dewisol**” ar gyfer Perchnogion Safonau ac nid oes rhaid sicrhau Statws Corff Achrededig IAQF. Sylwer y bydd disgwyl i'r wybodaeth neu gyngor unigol a ddarperir gael ei adolygu'n allanol gan gymheiriaid er mwyn cynnal achrediad IAQF llawn os gall trydydd parti ddarparu hwn.

Yr Amserlen Sicrwydd

Gofyniad Craidd:

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwybodaeth a/neu gyngor a achrededir yn ôl IAQF Cymru ymgymryd â rhaglen archwilio lawn bob tair blynedd (neu'n amlach os yw'n ofynnol gan eu Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru). Felly bydd achrediad IAQF Cymru a gyhoeddir gan Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd gan gychwyn ar ddyddiad cyhoeddi eu hadroddiad archwilio (neu lai na thair blynedd os bydd y Perchennog Safonau yn mynnu cael archwiliadau amlach). Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir ymestyn y cyfnod achredu hwn ond mae'r fath ymestyniadau yn ôl disgrisiwn Llywodraeth Cymru.

Gofyniad Datblygiadol:

Yn ychwanegol i'r broses sicrwydd lawn bydd yn ofynnol i Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru ddarparu sicrwydd, ar bwynt canolog achrediad asiantaeth (heb fod yn gynharach na 15 mis a heb fod yn hwyrach na 21 mis wedi sicrhau achrediad), bod yr asiantaeth honno wedi ymgymryd â hunanasesiad mewnol o gydymffurfriad parhaus ag IAQF Cymru ac wedi adrodd am newidiadau pwysig wrth eu Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru Gall Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru benderfynu ar amserlen ail-ddilysu amlach (e.e. yn flynyddol). Bydd cynnal achrediad parhaus yn ddibynnol ar y gwasanaeth achredu'n ymgymryd ag unrhyw gamau adfer mae eu Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru'n gofyn iddynt eu gwneud.

Hunanasesiad

Gofyniad Craidd:

Bydd yn ofynnol i Berchnogion Safonau sy'n ceisio statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru ddarparu sicrwydd bod eu proses yn cynnwys hunanasesiad cadarn gan y gwasanaeth yn ôl gofynion IAQF Cymru cyn archwilio. Dylai hwn gynnwys asesiad o

gydymffurfiad, meysydd ar gyfer gwella a barn y gwasanaeth ar unrhyw feysydd o berfformiad rhagorol.

Bydd yn ofynnol i Berchnogion Safonau ddarparu sicrwydd bod eu proses yn cynnwys gofyniad i asiantaeth achrededig ymgymryd â hunanasesiad cyfnodol. Fel lleiafswm, dylid ymgymryd â hwn unwaith yn ystod y Cylch Sicrwydd tair blynedd ar bwynt canol achrediad gwasanaeth (heb fod yn gynharach na 15 mis a heb fod yn hwyrach na 21 mis wedi sicrhau achrediad). Gall Perchnogion Safonau ddarparu sicrwydd o hunanasesu amlach (e.e. blynyddol) os ydynt yn ystyried bod hyn yn briodol ar gyfer eu cynllun. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio sicrwydd bod y sancsiynau a weithredir gan y Perchennog Safon i achos o beidio â chydymffurfio â'r gofyniad hwn yn gadarn (e.e. atal dros dro neu dynnu i ffwrdd achrediad IAQF Cymru).

Gofyniad Datblygiadol:

Yn ychwanegol i ymgymryd â'r hunanasesiad canol sicrwydd hwn, bydd yn ofynnol i Berchnogion Safonau ddarparu sicrwydd eu bod yn derbyn cadarnhad "hunanddilysu" i Lywodraeth Cymru bod y gwasanaeth yn dal i gydymffurfio ag IAQF Cymru a bod y gwasanaeth wedi adrodd am ffactorau risg y safonau a allai sbarduno archwiliad allanol llawn neu rannol neu broses sicrwydd arall yr ymgymerir â hi gan y Perchennog Safon. Nid yw hyn yn awgrymu bod yn rhaid i'r Perchennog Safon gynnal asesiad risg ar gyfer pob deiliad safon yn eu cynllun, ond rhaid bod ganddynt dealltwriaeth gyflawn o safonau risg maent yn disgwyl i bob perchennog safon weithredu oddi mewn iddynt. Fel gofyniad datblygiadol, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Pherchenogion Safonau ac yn eu cefnogi i ddatblygu dealltwriaeth o risg sydd yn dderbyniol i'r naill ochr a'r llall.

Asesu Allanol

Gofyniad Craidd:

Er mwyn cydymffurfio â gofynion IAQF Cymru bydd angen i Berchnogion Safonau ddarparu sicrwydd bod eu proses yn cynnwys asesu allanol cadarn yn ôl gofynion IAQF Cymru. Dylai'r broses hon gynnwys asesiad o gydymffurfiad, meysydd ar gyfer gwella ac unrhyw feysydd o berfformiad rhagorol. Ar gyfer yr holl Berchnogion Safonau mae'n rhaid i'r broses gynnwys:

- **Asesiad bwrdd gwaith** o dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir gan y gwasanaeth fel rhan o hunanasesiad a chais neu broses adnewyddu sicrwydd ansawdd y Perchennog Safon.
- **Arolygiad ar y safle** gan gynnwys archwilio'r adnoddau sydd ar gael i'r gwasanaeth, y dull gweithredu polisiau a gweithdrefnau, dealltwriaeth rheolwyr o ddull gweithredu IAQF Cymru ac ymwybyddiaeth staff o'r gofynion ansawdd.

Gofyniad Dewisol:

Bydd hefyd yn ofynnol i bob gwasanaeth achrededig IAQF Cymru fynd trwy adolygiad allanol **gan gymheiriaid**. Gall hyn gael ei wneud gan eu Perchennog Safon cyfredol lle mae cynllun y Perchennog Safon hwnnw wedi'i gymeradwyo neu gan Gorff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru arall (gan gynnwys gwasanaeth Adolygiad gan Gymheiriaid cyngor dyled MAS lle mae'n gymwys). Dylai'r Adolygiad gan Gymheiriaid gynnwys:

- Ar gyfer gwasanaethau **Math 1, 2 a 3** archwiliad o gofnodion achos/systemau monitro, adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i weithwyr gwybodaeth a/neu yngor y

gwasanaeth, hyfforddiant yr ymgymerir ag ef gan weithwyr gwybodaeth a/neu gyngor y gwasanaeth, trefniadau ar gyfer goruchwyllo staff â thâl a heb dâl.

- Ar gyfer gwasanaethau **Math 4 a 5** archwiliad o'r hyn uchod ac ar ben hynny adolygiadau o hapsampl o ffeiliau achos sy'n adlewyrchu ystod y gweithgarwch cynghori yr ymgymerir ag ef gan y gwasanaeth hwnnw. Dylai maint y sampl adlewyrchu cyfanswm heb fod yn llai nag 1% o weithgarwch y gwasanaeth hwnnw mewn cysylltiad ac achosion Math 4 a 5. Dylai'r gwaith o graffu ffeiliau achos gynnwys asesiad o ansawdd yn ôl y chwech maen prawf yn niffiniad IAQF Cymru o wybodaeth a chyngor Da.

Gofyniad Craidd:

Wrth ymgymryd ag asesiad allanol, bydd angen i Berchnogion Safonau ddarparu sicrwydd bod gan archwilwyr sgiliau priodol i ymgymryd â'u gwaith a'u bod yn destun goruchwyllo a chefnogaeth reolaidd i sicrhau cysondeb a gwrthrychedd staff archwilio. Bydd tystiolaeth i gefnogi cydymffurfiad â'r gofyniad hwn yn cynnwys:

- Gofynion cymhwysedd staff archwilio (Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth, Sgiliau)
- Trefniadau ymsefydlu ar gyfer staff archwilio
- Trefniadau hyfforddi parhaol ar gyfer staff archwilio
- Trefniadau goruchwyllo ac arfarnu ar gyfer staff archwilio
- Unrhyw gynlluniau cymhwyso neu ardystio sydd ar gael ar gyfer staff archwilio neu'n ofynnol ganddynt.

Gofyniad Dewisol:

Ar gyfer y Perchnogion Safonau hynny sy'n ymgymryd ag Adolygiad gan Gymheiriaid, bydd angen iddynt ddangos bod eu hadolygwyr cymheiriaid yn diwallu'r gofynion uchod ac, ar ben hynny, y gallant dangos:

- Lefelau priodol o wybodaeth yn y pynciau cyngor sy'n berthnasol i'r gwasanaeth yn mynd trwy'r archwiliad.
- Lefelau priodol o sgiliau ar gyfer y Math o waith gwybodaeth neu gyngor sy'n berthnasol i'r gwasanaeth sy'n ymgymryd â'r archwiliad.

Gofyniad Craidd:

Mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth cyfredol a phosibl yn cael eu cynnwys yn yr asesiad allanol o wasanaethau achrededig IAQF Cymru. Fel lleiafswm bydd yn ofynnol i Berchnogion Safonau ddarparu sicrwydd bod eu proses yn cynnwys ystyriaeth o farnau defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn gynnwys archwilio arolygon defnyddwyr gwasanaeth neu dystiolaeth arall a gesglir gan y darparwr.

Gofyniad Datblygiadol:

Dros gyfnod o amser, bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio cael mwy o gyfranogaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn y broses archwilio a byddai'n croesawu dialog â Pherchnogion Safonau ar y ffordd orau i gyflawni hyn.

Dilysu Dros Dro

Gofyniad Craidd:

Bydd achrediad IAQF Cymru a gyhoeddir gan Berchnogion Safonau'n cwmpasu cyfnod o dair blynedd o ddyddiad cyhoeddi adroddiad archwilio sefydliad. Fel lleiafswm, dylai pob cynllun ansawdd fynnu hunanasesiad gan yr asiantaeth achrededig o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod achredu.

Gofyniad Datblygiadol:

Bydd cadw'r achrediad hwn yn dibynnu ar "Ddilysu Dros Dro" lle bydd rhaid i wasanaethau achrededig ymgymryd â hunanasesiad mewnol i ddangos cydymffurfiad parhaol ag IAQF Cymru ar bwynt canol achrediad yr asiantaeth honno ac adrodd am newidiadau allweddol wrth eu Perchennog Safon. Bydd Perchnogion Safonau'n penderfynu ar newidiadau pwysig mewn cysylltiad â throsiant, newidiadau staff ac ati mae'n rhaid i asiantaeth adrodd amdanynt a mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r broses ymgeisio ar gyfer Perchnogion Safonau sy'n ceisio statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru.

Nid yw hyn yn awgrymu bod yn rhaid i'r Perchennog Safon gynnal asesiad risg ar gyfer pob deiliad safon yn eu cynllun, ond rhaid bod ganddynt ddealltwriaeth gyflawn o safonau risg maent yn disgwyl i bob perchennog safon weithredu oddi mewn iddynt. Wrth asesu Perchnogion Safonau ar gyfer statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru, byddwn yn archwilio'r ffactorau newid a asesir am risg. Rydym yn awgrymu y gall *newidiadau pwysig* gynnwys rhai neu'r cyfan o'r dilynol:

- Newidiadau sylweddol i drosiant ariannol (e.e. naill ai codiadau sylweddol mewn cyllid neu ostyngiadau sylweddol mewn cyllid)
- Trosiant neu staff â thâl neu heb dâl gormodol (e.e. mae trosiant yn fwy na 35%)
- Newidiadau sylweddol o ran uwch-arweinwyr (e.e. lle mae'r rheolwr gwasanaeth a'i ddirprwy/dirprwy ill dau wedi newid neu lle mae cyfarwyddwr a chadeirydd sefydliad wedi newid.
- Newidiadau sylweddol i'r dulliau cyflenwi gwybodaeth a/neu gyngor (e.e. symud o gyflenwi wyneb yn wyneb at gyngor ar y ffôn).
- Newidiadau sylweddol i'r mathau o gyngor a gyflenwir (e.e. colli adran gyngor budd-daliadau'n llwyr)
- Uno neu gaffael.

Wrth asesu Perchnogion Safonau ar gyfer statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru, byddwn hefyd yn archwilio'r cyfuniad o ffactorau newid sy'n codi o hunanasesu a fyddai'n sbarduno ailarchwiliad llawn neu rannol o'r gwasanaeth neu fodd arall o ddarparu sicrwydd parhaus bod yr asiantaeth yn dal i gydymffurfio ag IAQF Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Pherchnogion Safonau i ddatblygu ymagwedd briodol a chymesur i nodi ffactorau risg ac unrhyw weithgarwch dilynol.

Ym mhob achos, disgwylir i Berchnogion Safon ond darparu sicrwydd o gydymffurfiad parhaus gan eu Deiliad Safonau gydag IAQF Cymru o'r *Meysydd Ansawdd* hynny y maent yn Gorff Achredu Cymeradwy ar eu cyfer.

Atal Achrediad Dros Dro neu Ddiddymu Achrediad

Gofyniad Craidd:

Bydd angen i Berchnogion Safonau sy'n ceisio cael statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru nodi'r sail a'r trefniadau dros atal dros dro neu ddiddymu achrediad o wasanaethau lle maent wedi derbyn achrediad IAQF.

Apeliadau a Chwynion

Gofyniad Craidd:

Bydd angen i Berchnogion Safonau sy'n ceisio cael statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru ddangos bod ganddynt broses apelio gadarn ar gyfer penderfyniadau ynghylch atal dros dro neu ddiddymu achrediad ac ar gyfer gwrthod y dyfarniad achredu neu ddyfarniad amodol o achredu i wasanaeth.

Yn yr un modd, dylai Perchnogion Safonau sy'n ceisio statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru fod â threfniadau i ddelio â chwynion ynghylch y gwasanaethau maent yn cyflenwi oddi wrthynt a modd o adrodd am y rhain wrth Lywodraeth Cymru.

Cydymffurfio a Gwella

Gofyniad Datblygiadol:

Yn ganolog i IAQF Cymru yw'r dyhead bod y fframwaith nid yn unig yn ceisio sicrhau bod yr holl ddarparwyr gwybodaeth a/neu gyngor yn cyflawni safonau gofynnol mewn cysylltiad â diogelwch, ymatebolrwydd ac effeithiolrwydd, ond hefyd y bydd IAQF Cymru yn ceisio gwreiddio diwylliant o welliant parhaus ymhlith darparwyr unigol ac ar draws yr holl sector.

Oherwydd hyn mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod Perchnogion Safonau nid yn unig yn darparu asesiad deuaidd pasio/methu cydymffurfio/peidio â chydymffurfio ond hefyd adroddiad sy'n nodi meysydd lle gallai'r gwasanaeth, er ei fod yn cydymffurfio, geisio gwneud gwelliannau a lle mae meysydd o arferion da neu ragorol a allai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr eraill o wybodaeth a/neu gyngor neu'r sector yn fwy cyffredinol.

Y GOFYNION AR BERCHNOGION SAFONAU

Trosolwg

Mae'r adran uchod yn darparu manylion ynghylch y gofynion ar Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru mewn cysylltiad â gofynion y broses ar gyfer sicrhau ansawdd darparwyr unigol o wybodaeth a/neu gyngor yn ôl IAQF Cymru. Mae'r adran nesaf yn manylu ar sut bydd angen i bob Perchennog Safon sy'n ceisio statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru arddangos bod cynnwys eu safonau wedi'i alinio â'r maes ansawdd a gofynion meini prawf ansawdd IAQF Cymru. Yn yr adran hon rydym yn manylu ar y gofynion ychwanegol ar Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru i aros yn rhan o IAQF Cymru.

Cydymffurfiad Parhaol ag IAQF Cymru

Unwaith bod Perchennog Safon wedi sicrhau statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru bydd yn ofynnol iddynt ddarparu rhybudd i Lywodraeth Cymru o unrhyw newidiadau arfaethedig i gynnwys neu ddull gweithredu eu cynllun. Efallai bydd Llywodraeth Cymru'n mynnu bod y Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru'n cael ei ailasesu ynghylch cydymffurfio ag IAQF Cymru.

Efallai caiff Perchnogion Safonau eu cynnwys fel Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru yn amodol ar ymgymryd â nifer o newidiadau i'w cynllun. Os bydd hyn yn wir, efallai y bydd angen i Berchnogion Safonau adrodd am gynnydd tuag at gydymffurfiad llawn yn ôl cynllun gweithredu a amserlennir.

Yn ogystal, fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i IAQF fel fframwaith deinamig, disgwylir i Berchnogion Safon gyntuno i gynllun a amserlennir gyda Gwasanaeth Asesu Annibynnol IAQF ar gyfer cyflwyno unrhyw ofynion datblygu proses fel y disgrifiwyd uchod.

Efallai y caiff statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru ei dynnu gan Lywodraeth Cymru lle ystyrir bod cynnwys cynllun y corff hwnnw, y prosesau sicrwydd yr ymgymerir â hwy gan y cynllun hwnnw neu ddull gweithredu eu cynllun yn tanseilio uniondeb IAQF Cymru.

Bydd IAQF yn amodol ar gael ei adolygu a'i ddiwygio o bosibl. Os digwydd y fath ddiwygiadau bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu a oes angen i Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru gael eu hailasesu ynghylch cydymffurfiad parhaol ag IAQF.

Cyfraniad Strategol i Ddatblygu IAQF Cymru yng Nghymru

Cynllunnir IAQF Cymru i fod yn ddeinamig. Gall Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru chwarae rôl bwysig o ran gyrru gwelliannau i'r IAQF a'r ffyrdd y mae'n cael ei weithredu. Oherwydd hyn, disgwylir i Gorff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru:

- Gymryd rhan mewn o leiaf un cyfarfod y flwyddyn â Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar gysondeb rhwng cynlluniau a nodi arferion gorau.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ddull gweithredu eu cynllun, gan gynnwys:

- Adroddiad meintiol ar nifer yr archwiliadau, cyfanswm nifer y gwasanaethau a gwmpasir gan IAQF Cymru, niferoedd y gwasanaethau newydd a nifer y gwasanaethau a dynnwyd.
- Adroddiad ansoddol yn cynnwys meysydd her a wynebier gan wasanaethau a meysydd arferion da neu ragorol i'w hystyried fel rhan o'r Ddogfen Gyfarwyddyd ac Arferion Da.
- Sylwadau eraill sy'n berthnasol i ddatblygu IAQF Cymru ymhellach.
- Trefnu bod ffioedd y gellir eu codi am archwiliadau llawn neu rannol ar gael i'r cyhoedd.

Adrodd am Sicrwydd

Bydd hefyd yn ofynnol i Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru adrodd am bob archwiliad yr ymgymerir ag ef mewn cysylltiad ag IAQF Cymru ar ffurf adroddiad chwarterol yn manylu ar:

- Yr enw a chyfeiriad ar gyfer pob gwasanaeth sy'n amodol ar archwiliad
- Canlyniadau'r archwiliad hwnnw (e.e. Pasio/Methu neu Angen Camau Adfer).

Cymorth Gweithredol i IAQF Cymru

Bydd IAQF Cymru'n mynnu bod Gyrrff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru'n sicrhau cydymffurfriad gan wasanaethau a achrededir gan IAQF Cymru â'r camau gweithredu dilynol:

Gyflwyno manylion llawn ynghylch eu gwasanaeth i gyfeiriadur darparwyr gwybodaeth a chyngor Llywodraeth Cymru

- Diweddarau manylion llawn ynghylch eu gwasanaeth i gyfeiriadur darparwyr gwybodaeth a chyngor Llywodraeth Cymru o fewn un mis o unrhyw newid i'w gwasanaeth
- Cadarnhau'r data a gofnodwyd ar gyfeiriadur darparwyr gwybodaeth a chyngor Llywodraeth Cymru pob chwe mis.
- Arddangos logo achredu IAQF Cymru mewn man amlwg ar y safle a mewn deunyddiau eraill yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru
- Tynnu i ffwrdd unrhyw nodau achredu IAQF Cymru o fewn saith diwrnod o atal dros dro, tynnu i ffwrdd neu ddiddymu achrediad IAQF Cymru.

Y Broses Ymgeisio

Bydd angen i Berchnogion Safonau sy'n ceisio am statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru gwblhau'r ffurflen ymgeisio atodedig. Dylid cyflwyno hon gyda dogfennaeth gefnogol, gan gynnwys copi o'u safon a thri adroddiad archwilio neu asesu a gwblhawyd o fewn y chwe mis diwethaf¹ i FinancialInclusion@wales.gsi.gov.uk.

¹ Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n bwriadu datblygu gwasanaeth newydd sy'n ceisio am statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru lle nad yw enghreifftiau o adroddiadau archwilio neu asesu ar gael, bydd tystiolaeth arall o ansawdd a chysondeb adrodd yn ofynnol.

YMGEISIO AM STATWS CORFF ACHREDU CYMERADWY IAQF CYMRU

1 Manylion Cyswllt a Chynllun

1.1 Enw'r sefydliad sy'n ymgeisio	
1.2 Enw'r Safon neu God Aelodaeth	
1.3 Enw a dynodiad y person yn cwblhau'r cais hwn	
1.4 Rhif ffôn cyswllt	
1.5 Cyfeiriad e-bost	
1.6 Cyfeiriad post y person dynodedig	

1.7 Meysydd Ansawdd rydych yn ceisio statws <i>Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru</i> amdanynt	Nodwch ag "x"
Maes Ansawdd 1: Wedi'i Reoli'n Dda	
Maes Ansawdd 2: Wedi'i Gynllunio'n Dda	
Maes Ansawdd 3: Hygyrch, Gofalgar a Diogel	
Maes Ansawdd 4: Darparu Gwybodaeth a Chyngor	
Maes Ansawdd 5: Staff Cymwys ym Meysydd Gwybodaeth a Chyngor	
Maes Ansawdd 6: Gwasanaeth Dwyieithog	
Maes Ansawdd 7: Cyflenwi Canlyniadau	

1.8 Dangoswch isod y mathau o wasanaeth rydych yn bwriadu eu hasesu trwy Adolygiad gan Gymheiriaid. Nodwch "x" yn y blwch (blychau) perthnasol.					
Ni cheisir Adolygiad gan Gymheiriaid		Mathau o Adolygiad gan Gymheiriaid 1-3		Mathau o Adolygiad gan Gymheiriaid 4-5	

2 Gofynion Craidd

At Ddefnydd yr Aseswr yn Unig

	Gofyniad Craidd	Dog. Cyf.	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Wedi'i ddiwallu le/Nage	Camau gweithredu pellach lle bo angen
2.1	Mae gwasanaethau'n amodol ar archwiliad llawn o leiaf unwaith bob tair blynedd				
2.2	Mae hunanasesiad gan y gwasanaeth yn ofynnol cyn yr archwiliad				
2.3	Mae Aseiad Allanol fel rhan o'r archwiliad yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Aseiad Bwrdd Gwaith • Arolygiad ar safle 				
2.4	Cynhyrchir adroddiad archwilio ysgrifenedig ar gyfer pob aseiad a threfnir bod hwn ar gael i Lywodraeth Cymru				
2.5	Cynhyrchir cynllun gwella ysgrifenedig ar gyfer pob gwasanaeth a archwilir (gellir cynnwys hwn yn yr Adroddiad Archwilio neu gall y gwasanaeth a archwilir ei hunan ei baratoi)				
2.6	Ymrwymiad y gellir ei arddangos i welliant parhaus gan gynnwys nodi cydymffurfiaid, meysydd her a meysydd arferion rhagorol wedi'u cynnwys o fewn yr adroddiad archwilio a/neu gynllun gwella				
2.7	Ymgymerir â dilysu dros dro o leiaf unwaith yn ystod y cylch archwilio sy'n cynnwys hunanasesiad ac adolygiad o newidiadau pwysig gan				

	Ddeiliad y Safon				
2.8	Beth yw'r ffactorau newidiad pwysig a asesir fel rhan o Ddilysu Dros Dro?				
2.9	Beth yw'r cyfuniadau o ffactorau newid a allai sbarduno ailarchwiliad llawn neu rannol neu gamau gweithredu lleddfu/adfer eraill?				
2.10	Beth yw'r dulliau mae cymhwysedd yr archwiliwr yn cael ei sicrhau a'i gynnal trwyddynt?				
2.11	Beth yw'r trefniadau ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn y broses o archwilio neu asesu?				
2.12	Beth yw'r seiliau ar gyfer atal achrediad dros dro rhag gwasanaeth?				
2.13	Beth yw'r seiliau ar gyfer tynnu achrediad i ffwrdd rhag gwasanaeth?				
2.14	Beth yw eich proses apelio ar gyfer penderfyniadau'n perthyn i wrthod achrediad neu ddyfarnu achrediad amodol i wasanaeth?				
2.15	Beth yw eich proses apelio ar gyfer penderfyniadau'n perthyn i atal achrediad dros dro neu dynnu achrediad i ffwrdd rhag gwasanaeth?				
2.16	Beth yw eich gweithdrefn gwynion ar gyfer rheoli'ch cynllun?				

Ar gyfer yr asiantaethau hynny sy'n ceisio sicrhau statws Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid cwblhewch yr adran nesaf hefyd:

	Gofyniad Craidd	Dog. Cyf.	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn	Wedi'i ddiwallu le/Nage	Camau gweithredu pellach lle bo angen
--	------------------------	------------------	--	--------------------------------	--

			cydymffurfio		
2.17	Cwmpas eich proses adolygiad gan gymheiriaid (e.e. ffrâm sampl ac ati)				
2.18	Dulliau sicrhau a chynnal cymhwysedd adolygwyr cymheiriaid				

3 Ymrwymadau fel Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru

Fel Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru bydd yn ofynnol ichi ymgymryd ag ystod o gamau gweithredu â neu ar ran Llywodraeth Cymru. Dangoswch eich cydsyniad i'r gofynion dilynol:

	Ymrwymiad	Cydsyniad
3.1	<p>Cyfrannu i ddatblygiad strategol yr IAQF yng Nghymru trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gymryd rhan mewn o leiaf un cyfarfod y flwyddyn â Llywodraeth Cymru • Darparu Adroddiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Adroddiad meintiol ar nifer yr archwiliadau, cyfanswm y gwasanaethau a gwmpasir gan IAQF Cymru, niferoedd y gwasanaethau newydd a nifer y gwasanaethau a dynnwyd i ffwrdd. ○ Cydymffurfiaid â hunanddilysu, ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd a oedd yn codi o asesiadau risg y gwasanaeth • Adroddiad ansoddol yn cynnwys meysydd her a wynebwr gan wasanaethau a meysydd arferion da neu ragorol i'w hystyried fel rhan o'r Ddogfen Gyfarwyddyd ac Arferion Da. 	
3.2	<p>Darparu adrodd rheolaidd ar ddull gweithredu'r cynllun gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr enw a chyfeiriad ar gyfer pob gwasanaeth sy'n amodol ar archwiliad • Canlyniadau'r archwiliad hwnnw (e.e. Pasio/Methu neu Angen Camau Adfer). • Adroddiad archwilio ar gyfer y gwasanaethau hynny yr achrededir eu bod yn cydymffurfio ag IAQF Cymru neu nas achrededir eu bod yn cydymffurfio ag IAQF Cymru i Lywodraeth Cymru. 	
3.3	<p>Sicrhau bod gwasanaethau a achrededir o dan eu cynllun yn ôl yr IAQF yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno manylion llawn ynghylch eu gwasanaeth i gyfeiriadur darparwyr gwybodaeth a chyingor Llywodraeth Cymru • Diweddarau manylion llawn ynghylch eu gwasanaeth i gyfeiriadur darparwyr gwybodaeth a chyingor Llywodraeth Cymru o fewn un mis o unrhyw newid i'w gwasanaeth • Arddangos logo achredu IAQF Cymru mewn man amlwg yn y safle a mewn deunyddiau eraill yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru • Tynnu i ffwrdd unrhyw nodau achredu IAQF Cymru o fewn saith 	

	diwrnod o atal dros dro, tynnu i ffwrdd neu ddiddymu achrediad IAQF Cymru.	
3.4	Trefnu bod unrhyw ffioedd, costau neu daliadau'n gysylltiedig â gweithredu eu rôl fel Corff Achredu Cymeradwy IAQF Cymru ar gael i'r cyhoedd.	

Cydymffuriad Maes Ansawdd

At Ddefnydd yr Aseswr yn Unig

Maes Ansawdd 1: Wedi'i Reoli'n Dda					
Meini Prawf a Gofyniad	Ie/ Na ge	Cyf. dogfen	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Ie/ Na ge	Camau gweithredu pellach lle bo angen
1.1 Mae gan y gwasanaeth gylch gwaith clir yn seiliedig ar angen					
<ul style="list-style-type: none"> Mae cylch gwaith ysgrifenedig ar gyfer y gwasanaeth ar gael gan gynnwys pynciau Cyngor, mathau, dulliau cyflenwi a'r boblogaeth darged Cynhwysir hyn mewn deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y cyhoedd. 					
1.2 Strwythur rheoli clir â rolau a chyfrifoldebau diffiniedig					
<ul style="list-style-type: none"> Organogram Disgrifiad ysgrifenedig o'r strwythur rheoli, gan gynnwys, lle mae'n gymwys, y corff llywodraethu. Rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â chynllunio, rheoli a chyflenwi gwasanaethau gwybodaeth a chynghori 					
1.3 Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chynllunio, rheoli cefnogi neu gyflenwi gwasanaethau gwybodaeth a/neu gynghori yn cael goruchwyllo rheolaidd, arfarnu blynyddol a mynediad i gyfleoedd datblygu ar gyfer staff					
<ul style="list-style-type: none"> Polisi clir ar oruchwyllo, 					

<p>arfarnu a datblygu ar gyfer staff â thâl a heb dâl, yn gymesur â phrofiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodion hyfforddiant staff yn arddangos bod hyfforddiant priodol wedi'i ddarparu sy'n gymesur â rolau a chyfrifoldebau'r gwaith • Iechyd, diogelwch a lles staff yn cael eu hadlewyrchu mewn polisiau cadarn • Cyllideb ar gyfer hyfforddiant staff yn ei lle. • Cynhelir cofnodion hyfforddiant ar gyfer yr holl staff ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth • Monitro yn ei le ar gyfer staff â thâl a heb dâl yn ôl nodweddion gwarchoddedig 					
1.4 System gadarn o reoli ariannol					
<ul style="list-style-type: none"> • Dogfennaeth glir ynghylch systemau rheoli ariannol â llinellau ysgrifenedig o awdurdod dirprwyedig ar gyfer deiliaid cyllideb. • Trefniadau clir ar gyfer sefydlu a monitro cyllidebau blynyddol y gwasanaeth 					
1.5 Llinellau cyfathrebu mewnol clir					

<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun cyfathrebu mewnol • Cylch cyfarfod tîm • Ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector mae cyfarfodydd y pwyllgor rheoli'n cael eu cynnal yn ôl gofynion cyfansoddiadol 					
1.6 Cydymffuriad â'r holl deddfwriaeth a rheoleiddio cyffredinol perthnasol					
<ul style="list-style-type: none"> • Llawlyfr swyddfa'n nodi deddfwriaeth berthnasol ac yn manylu ar gydymffuriad. • Cedwir at ofynion cyfreithiol e.e. yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol • Delir awdurdodiad lle mae'r gwasanaeth yn cyflenwi cyngor dyled a/neu wasanaethau gwybodaeth gredyd anfasnachol a reoleiddir • Mae gan staff wybodaeth o'r Llawlyfr Swyddfa a'i gynnwys 					

Maes Ansawdd 2: Wedi'i Gynllunio'n Dda					
Meini Prawf a Gofyniad	Ie/Na ge	Cyf. dogfen	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Ie/Na ge	Camau gweithredu pellach lle bo angen
2.1 Llywodraethu Gwasanaeth					
<p>Mae strwythur llywodraethu ysgrifenedig sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod gweithgareddau'r gwasanaeth o fewn y gyfraith ac o fewn ei gylch gwaith cyfansoddiadol ill dau • Penderfynu cenhadaeth a phwrpas y gwasanaeth ac yn cytuno ar gynlluniau strategol • Datblygu a chytuno ar bolisiau • Cytuno ar y gyllideb ac yn monitro perfformiad ariannol ac atebolrwydd i gyllidwyr • Sicrhau bod gan y gwasanaeth adnoddau digonol a bod y rhain yn cael eu rheoli'n effeithiol • Monitro darpariaeth o wasanaethau • Gweithredu fel cyflogwr ac yn adolygu perfformiad aelod uchaf y staff yn weithredol, ac yn gosod lefelau cyflog. • Adolygu perfformiad yn 					

<p>rheolaidd trwy fonitro a gwerthuso</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheoli cysylltiadau cyhoeddus y gwasanaeth • Adolygu ei berfformiad ei hunan fel corff llywodraethu • Deall a rheoli risg 					
2.2 Asesiadau anghenion					
<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun busnes ar gyfer cyflenwi gwasanaeth yn cymryd i ystyriaeth asesiad o anghenion y gymuned (wedi'i gomisiynu neu mewn partneriaeth). 					
2.3 Cynllunio busnes					
<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun busnes wedi'i gostio, 'CLYFAR' sy'n cynnwys amcanion y gwasanaeth; manylion ynghylch y gwasanaeth a ddarperir; strategaeth ymlaen; cynllun gweithredu • Cynllun busnes yn datgan yn glir: nodau, gwerthoedd ac amcanion y busnes a lle mae'r gwasanaeth yn ffitio i mewn i'r gymuned • Cynllun busnes yn adlewyrchu cylch gwaith y gwasanaeth yn 1.1 uchod 					

2.4 Adolygu'r Gwasanaeth

<ul style="list-style-type: none">• Methodoleg adolygu wedi'i hymgorffori yn y cynllun busnes• Mae canlyniadau allweddol cyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu dadansoddi a'u cynnwys yn y broses o adolygu cynllunio busnes• Mae'r adolygiad yn cynnwys adborth gan gleientiaid, staff a phartneriaid• Monitro yn ei le ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig					
--	--	--	--	--	--

Maes Ansawdd 3: Wedi'i Gynllunio'n Dda					
Meini Prawf a Gofyniad	Ie/Na ge	Cyf. dogfen	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Ie/Na ge	Camau gweithredu pellach lle bo angen
3.1 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hygyrchedd					
<ul style="list-style-type: none"> Dylid cyflwyno polisi'n manylu ar sut bydd anghenion y gymuned yn cael eu diwallu gan ddarparwr y gwasanaeth, gan gynnwys y rhai hynny a allai ddiodef anfantais neu wahaniaethu. Hefyd mae'n rhaid i'r polisi fanylu ar y math o waith yr ymgwymerir ag ef a lle mae darpariaeth y gwasanaeth yn cael ei chyfyngu i grwpiau targed penodol. Mae dulliau cyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cynllunio a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn hyrwyddo hygyrchedd Mae gan y gwasanaeth ddatganiad clir a chyhoeddus ar gydraddoldeb ac amrywiaeth 					
3.2 Mae codau ymddygiad yn eu lle ar gyfer staff a defnyddwyr y gwasanaeth fel ei gilydd					
<ul style="list-style-type: none"> Mae datganiad clir ynghylch 					

<p>disgwyliadau ymddygiad staff a defnyddwyr y gwasanaeth yn hygyrch i'r holl staff a holl ddefnyddwyr y gwasanaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae staff y gwasanaeth yn cadw at godau ymddygiad drwy'r amser, trwy bob sianel gyfathrebu. • Cofnodion hyfforddiant staff â thâl a heb dâl mewn gofal cwsmeriaid 					
3.3 Llywodraethu Gwybodaeth					
<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'n sicrhau bod manylion ynghylch defnyddwyr y gwasanaeth a chofnodion cleientiaid yn cael eu trafod yn unol â deddfwriaeth ddiogelu data drwy'r amser. • Mae cofnodion hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol yn dangos tystiolaeth o hyfforddiant mewn materion ynghylch diogelu data. • Trefnir bod defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol o sut bydd darparwr y gwasanaeth yn trafod eu data; ffiniau i gyfrinachedd a sut i gwyno ynghylch unrhyw doriad 					

<ul style="list-style-type: none"> • ar gyfrinachedd. • System strwythuredig yn ei lle i reoli cofnodion cleientiaid. • Wedi'i gofrestru â'r Comisiynydd Gwybodaeth. 					
3.4 Cwynion a chanmoliaethau					
<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi cwynion clir, cyhoeddedig a hygyrch, yn manylu ar bob cam o'r broses gwynion gan gynnwys cymrodeddwyr allanol lle mae'n briodol. • Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl mewn trafod cwynion 					
3.5 Camau gwneud iawn am gamweddau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth os digwydd gwallau yn y gwasanaeth					
<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisi clir yn ei le i wneud iawn am gamweddau i ddefnyddwyr y gwasanaeth. • Delir yswiriant indemniad proffesiynol priodol. 					
3.6 Diogelu					
<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisi ar ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys swyddog cyfrifol penodol. • Mae polisi ar ddiogelu oedolion mewn perygl, gan gynnwys swyddog cyfrifol penodol. • Mae cofnod hyfforddiant staff 					

ar hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff sy'n ymdrin â chleientiaid					
---	--	--	--	--	--

Maes Ansawdd 4: Darparu Gwybodaeth a Chyngor					
Meini Prawf a Gofyniad	Ie/Na ge	Cyf. dogfen	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Ie/Na ge	Camau gweithredu pellach lle bo angen
4.1 Sicrhau y darperir gwybodaeth ac/neu gyngor “er lles gorau defnyddwyr gwasanaethau”					
<ul style="list-style-type: none"> Mae polisiau a gweithdrefnau yn manylu ar ffiniau i annibyniaeth y gwasanaeth Darperir gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth ynghylch ffynonellau eraill sy'n darparu cyngor lle mae unrhyw wrthdrawiad buddiannau posibl, ymddangosiadol neu wirioneddol Hysbysir costau i ddefnyddwyr y gwasanaeth mewn modd tryloyw ac amserol 					
4.2 Rhwydweithio ac Atgyfeirio					
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r sefydliad yn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid allanol er lles gorau defnyddwyr eu gwasanaeth a'u datblygiad eu hunain. Mae'n cynnal cyfeiriadur cyfredol o asiantaethau dangos y ffordd / atgyfeirio a'u cylch gwaith Cofnodion cyfarfodydd rhwydwaith atgyfeirio lleol 					

<ul style="list-style-type: none"> Gweithdrefn atgyfeirio ac adborth. 					
4.3 Cofnodi Gwasanaeth a Rheoli Achos					
<ul style="list-style-type: none"> Mae polisïau a gweithdrefnau ynghylch cofnodi achosion a rheoli achosion sy'n cynnwys: cyfweiliad cychwynnol; diffiniad o achos; gweithdrefn ar gyfer cau achos System strwythuredig i reoli achosion – seiliedig ar TG neu bapur Mae proses adolygu yn ei lle i unigolyn â chymwysterau addas adolygu gwaith achos 					
4.4 Gwybodaeth					
<ul style="list-style-type: none"> Mynediad i ffynonellau addas a chyfredol o wybodaeth naill ai ar-lein neu wedi'u seilio ar bapur. 					

Maes Ansawdd 5: Staff Cymwys ym Meysydd Gwybodaeth a Chyngor					
Meini Prawf a Gofyniad	Ie/Na ge	Cyf. dogfen	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Ie/Na ge	Camau gweithredu pellach lle bo angen
5.1 Cydymffurfio â Fframwaith Ymwybyddiaeth					
<ul style="list-style-type: none"> Dulliau i sicrhau bod gan staff y gofynion ymwybyddiaeth a bennir o fewn prif ddogfen y Fframwaith 					
5.2 Fframwaith Gwybodaeth					
<ul style="list-style-type: none"> Dulliau i sicrhau bod gan staff y gofynion gwybodaeth a bennir o fewn prif ddogfen y Fframwaith 					
5.3 Fframwaith Sgiliau					
<ul style="list-style-type: none"> Dulliau i sicrhau bod gan staff y gofynion sgiliau a bennir o fewn prif ddogfen y Fframwaith 					

Maes Ansawdd 6: Gwasanaeth Dwyieithog					
Meini Prawf a Gofyniad	Ie/Na ge	Cyf. dogfen	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Ie/Na ge	Camau gweithredu pellach lle bo angen
6.1 Mae rheolaeth fewnol y gwasanaeth yn symud tuag at ddwyieithrwydd llawn.					
<ul style="list-style-type: none"> <i>Cynllun Cynnydd yr Iaith Gymraeg</i> ag amserlenni ar gyfer symud tuag at reoli gwasanaeth gwbl ddwyieithog wedi'i seilio ar yr offeryn cynllunio sydd ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. 					
6.2 Gwasanaeth a Gynllunir yn Dda ag atebolrwyddau clir ar gyfer datblygu'r capasiti iaith Gymraeg.					
<ul style="list-style-type: none"> Mae asesiad o anghenion yn cynnwys anghenion siaradwyr y Gymraeg Mae Cynllunio Busnes yn ymateb i anghenion siaradwyr yr iaith Gymraeg Mae Llywodraethu'r Gwasanaeth yn cynnwys person penodol ar gyfer hyrwyddo datblygiad yr iaith Gymraeg Mae canlyniadau ar gyfer siaradwyr yr iaith Gymraeg yn cael eu monitro a chymerir camau gweithredu os yw'r monitro hwn yn awgrymu nad yw cleientiaid iaith Gymraeg yn 					

cyflawni canlyniadau cymaradwy â defnyddwyr eraill o'r gwasanaeth					
6.3 Gwasanaethau Hygyrch, Diogel a Gofalgar ar gael yn yr Iaith Gymraeg					
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau gwybodaeth a chynghori'n hygyrch i gleientiaid sy'n dewis neu eisiau cyfathrebu yn y Gymraeg. • Mae protocolau mewnol a/neu drefniadau atgyfeirio i gyflenwi gwasanaethau dwyieithog • Mae adnoddau digonol ar gael i ddarparu gwasanaethau yn yr Iaith Gymraeg ac i gyllido hyfforddiant i staff yn yr Iaith Gymraeg. 					

Maes Ansawdd 7: Cyflenwi Canlyniadau

NB Sylwer ei fod yn ofynnol i wasanaethau achrededig IAQF Cymru nodi o leiaf pedwar maes canlyniad a gysonir ag amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid oes unrhyw ofyniad ar hyn o bryd i ganlyniadau gael eu casglu mewn fformat arbennig na thrwy weithredu methodoleg benodol. Felly bydd angen i Berchnogion Safonau sy'n ceisio statws Corff Achrededig Cymeradwy IAQF Cymru arddangos eu bod yn archwilio gwasanaethau ynghylch y gofyniad hwn ond ni fydd angen iddynt asesu effeithiolrwydd gwasanaethau wrth iddynt gyflenwi'r canlyniadau hyn.

Meini Prawf a Gofyniad	Ie/ Na ge	Cyf. dogfen	Darparwch wybodaeth neu sylwadau ychwanegol i roi tystiolaeth eich bod yn cydymffurfio	Ie/ Na ge	Camau gweithredu pellach lle bo angen
7.1 Cymru ffyniannus					
Ar gyfer yr amcan hwn dylai gwasanaethau gwybodaeth a/neu gynghori ystyried y cyfraniad maent yn ei wneud i drechu tlodi a/neu allgáu ariannol Gallai canlyniadau gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Enillion Ariannol • Lles economaidd • Sicrhau hawliau a hawliadau • Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth 					
7.2 Cymru gadarn					
Ar gyfer yr amcan hwn dylai gwasanaethau gwybodaeth a/neu gynghori ystyried y cyfraniad maent yn ei wneud i sicrhau cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r capasiti i addasu i newid. Gallai canlyniadau gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Y cyfraniad a wneir i leihau 					

allyriadau carbon					
<ul style="list-style-type: none"> Faint o gaffael a geir yn lleol 					
7.3 Cymru iachach					
<p>Ar gyfer yr amcan hwn, dylai gwasanaethau gwybodaeth a/neu gynghori ystyried y cyfraniad maent yn ei wneud at sicrhau y gwneir gwelliannau i iechyd corfforol, iechyd medddwl a lles pobl a bod y gwelliannau hyn yn gynaliadwy. Gallai canlyniadau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Lefelau is o straen (er enghraifft trwy fynd i'r afael â phroblemau dyled). Llai o dlodi tanwydd Lleihau'r niferoedd o bobl mewn llety dros dro/amhriodol Lleihau cyflwr gwael tai sy'n achosi niwed i iechyd Niferoedd llai o bobl mewn perygl oherwydd trais domestig 					
7.4 Cymru fwy cyfartal					
<p>Ar gyfer yr amcan hwn dylai gwasanaethau gwybodaeth a/neu gynghori ystyried y cyfraniad maent yn ei wneud i sicrhau bod pobl yn gallu cyflawni eu potensial heb ystyried eu cefndir neu</p>					

<p>amgylchiadau. Gallai canlyniadau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Niferoedd cynyddol o bobl yn datgan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. • Gwell fynediad i hyfforddi, datblygu a chymorth 					
<p>7.5 Cymru sy'n cynnwys cymunedau cydlynus</p>					
<p>Ar gyfer yr amcan hwn dylai gwasanaethau gwybodaeth a/neu gynghori ystyried y cyfraniad maent yn ei wneud i sicrhau bod pobl yn gallu cyflawni eu potensial heb ystyried eu cefndir neu amgylchiadau. Gallai canlyniadau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Niferoedd cynyddol o bobl yn datgan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. • Gwell fynediad i hyfforddi, datblygu a chymorth 					
<p>7.6 Cymru lle mae'r iaith Gymraeg yn fywiog ac yn ffynnu</p>					
<p>Ar gyfer yr amcan hwn dylai asiantaethau gwybodaeth a/neu gynghori ystyried y cyfraniad maent yn ei wneud i sicrhau</p>					

<p>cymdeithas sy'n hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg gan annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol ac adloniadol. Gallai canlyniadau gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell fynediad i wybodaeth a chyngor yn y Gymraeg • Niferoedd cynyddol o staff yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog • Gwell fynediad i gyfleoedd adloniadol i wasanaethau dargedu'r gymuned 					
7.7 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.					
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r seithfed Nod Strategol yn ystyriaeth drosfwaol ar gyfer yr holl wasanaethau a ariennir gan y cyhoedd yng Nghymru. Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu enghreifftiau gan Ddarparwyr Gwybodaeth a/neu Gyngor o ganlyniadau a gyflawnir sy'n cefnogi'r nod hon. 					